


Rhifyn 21

Chwarae dros Gymru

Newyddion chwarae a gwybodaeth gan y sefydliad cenedlaethol ar gyfer chwarae **Haf 2007**



**Rhifyn
Pob Plentyn**



www.chwaraecymru.org.uk



Golygyddol

“Mae galluogi pob plentyn i chwarae, ac i gyd-chwarae, yn ymwneud â budd i'r gymuned gyfan.”

Cynnwys

tudalen

Golygyddol	2
Gwobr	3
Gwasanaeth Newyddion y Wefan	3
Ymddiriedolwyr Newydd	3
Diwrnod Chwarae	3
Ofn Mynd Allan i Chwarae	4
Chwarae Cynhwysol ac Anabledd	4
Y Loteri FAWR	4
Chwarae, Pasteiod a Phomgranadau	4
Tîm Y Comisiynydd Plant	5
Plant Yng Nghymru yn Herio'r Llywodraeth	5
Rhagor o Arian ar gyfer Chwarae i Blant Anabl	5
Pob Plentyn	6
Stori Josie	6
Rhaglen 'Bwdi'	7
Stori Plentyn Teithwyr o Belfast	8
Prosiect Teithwyr Torfaen	8
Chwarae yn y Mosg	9
Canfod y Llwybr at Belydrau'r Haul	10
Dyddiadur Dan Rees-Jones	12
Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion Ar Waith	13
Digwyddiadau	14
Ariannu	14
Cyhoeddiad Newydd	14
Y Gymdeithas Chwarae Ryngwladol	14

Cyhoeddir Chwarae dros Gymru gan Chwarae Cymru bedair gwaith y flwyddyn.

Cysylltwch â'r Golygydd yn:
Chwarae Cymru, Ty Balfig,
Sgwâr Mount Stuart,
Caerdydd CF10 5FH

Rhif ffôn: 029 2048 6050

E-bost: gwybodaeth@chwaraecymru.org.uk

Rhif Elusen Gofrestredig. 1068926

Nid barn Chwarae Cymru o reidrydd yw'r farn a fynegir yn y cylchlythyr hwn. Rydym yn cadw'r hawl i olygu cyn cyhoeddi. Nid ydym yn ardstio unrhyw rai o'r cynnyrch na'r digwyddiadau a hysbysebwr yn neu gyda'r cyhoeddiad hwn.

Dyluniwyd ac argraffwyd gan Carrick Business Services Cyf.

Ffôn: 029 2074 1150

E-bost: sales@carrickdesignprint.co.uk

Bu adroddiad diweddar Cymdeithas **By Plant**¹, yn amlygu'r diffyg cyfle i blant chwarae allan a gwneud ffrindiau, yn y newyddion cenedlaethol. Yn anffodus, nid oedd hyn yn newydd i'r rhai hynny ohonom sy'n gwbl ymwybodol o'r cwtogi cynyddol sydd ar ryddid plant a phobl ifanc ac sydd wedi ymgyrchu ar y mater hwn ers nifer o flynyddoedd. Roedd yn nodyn amserol i'n hatgoffa na allwn orffwys a bod ein gwaith o fudd aruthrol i blant ac i gymdeithas.

Yn y rhifyn "Pob Plentyn" hwn o Chwarae dros Gymru, rydym yn dathlu amrywiaeth plant Cymru ac yn archwilio sut y gallwn ddarparu cyfleoedd chwarae o safon i bob un ohonynt. Dengys adroddiad Cymdeithas y Plant nad dim ond mater o fyw gyda nam yw anabledd; gallwn anablu unrhyw blentyn trwy gynnig amgylchedd anghefnogol ac agwedd negyddol sy'n eu rhwystro rhag chwarae unai ar eu pen eu hunain neu gydag eraill. Rydym yn falch i gyflwyno yn y rhifyn hwn, brosiectau chwarae yng Nghymru sy'n golygu y caiff plant, na fyddent fel arfer yn cael cyfle i wneud defnydd o ddarpariaeth chwarae, eu cynnwys a bod eu anghenion chwarae'n cael eu cwrdd fel mater o hawl. Pan fyddwn yn dweud 'pob plentyn' rydym yn golygu **pob** plentyn.

Mae gan Gymru lywodraeth newydd a Gweinidog newydd â chyfrifoldeb dros chwarae plant - Carwyn Jones A.C. Tra bo'r bobl fydd yn gwneud y penderfyniadau'n ymgyfarwyddo â'u rôl newydd, rydym yn awyddus i sicrhau y caiff y momentwm gwleidyddol i drosglwyddo Cynllun Cyflawni Polisi Chwarae y Cynulliad ei gynnal. Dywed

adroddiad Cymdeithas y Plant wrthym bod diffyg cyfleoedd i blant chwarae yn dal yn fater o bryder mawr i'r plant eu hunain, i'r bobl broffesiynol sy'n gweithio gyda a thros blant ac i'r cyhoedd yn gyffredinol. Er y bu ein hymdrechion i gefnogi darparu rhagor o gyfleoedd chwarae o safon uchel yn rhai sylweddol a buddiol, ni chaiff pob un o'r 700,000 o blant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru² y rhyddid i chwarae allan yn eu cymuned neu i gael mynediad i ddarpariaeth chwarae o safon fel bo angen. Lansiwyd 'Chwarae yng Nghymru', Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae, ddeunaw mis yn ôl gyda disgwyliadau mawr. Mae'r Cynulliad wedi creu amserlen i'w hun ar gyfer cyflawni'r targedau strategaeth ond cafwyd rhywfaint o lithro yn hyn o beth, a hoffem annog y Cynulliad i ddyblu eu hymdrechion i drosglwyddo'r cynllun.

Edrychwn ymlaen at gefnogi'r Gweinidog newydd i gyflawni'r dyheadau uchelgeisiol a osodwyd gan y ddau Lywodraeth blaenorol a bydd Chwarae Cymru'n parhau i ymgyrmyd â'r rôl o "gyfaill beirniadol" i Lywodraeth y Cynulliad, gan eiriol dros chwarae plant.

Mike Greenaway
Cyfarwyddwr

Gwefannau Defnyddiol

<http://www.npfa.co.uk/content/protect/index.html>

<http://www.cabe.org.uk/default.aspx?contentitemid=41>

<http://www.playlink.org.uk>

- i Alison John a Rob Wheway (2004) Can Play, Will Play: disabled children and access to outdoor playgrounds. Llundain: National Playing Fields Association
- ii Good Childhood Enquiry www.childrensociety.org.uk
- iii Rhian Croke a Anne Crowley (2006) Righting the Wrongs: The reality of children's rights in Wales. Caerdydd, Achub y Plant

Diolch o galon i bawb a gyfranodd at y cylchgrawn hwn – allen ni ddim ei wneud heboch chi.

Mae'r rhifyn hwn o Chwarae dros Gymru, yn ogystal â rhifynnau blaenorol, ar gael i'w lwytho i lawr o adran newyddion ein gwefan ar www.chwaraecymru.org.uk



Gwobr

Yn ddiweddar, enillodd Gwasanaethau Chwarae Plant Caerdydd 'Wobr Newid a Dyfeisgarwch' am eu gwaith yn darparu offer chwarae pren 'flatpack'. Ar hyn o bryd maent yn cynorthwyo'r plant yn Ysgol Kitchener i adeiladu wal ddringo siâp-t, rhydi, llwyfan a barrau mwnci.

Am ragor o wybodaeth galwch Andrew Burrow ar 07976 056112

Gwasanaeth Newyddion y Wefan

Mae'r gwasanaeth newyddion dwyieithog ar ein gwefan yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol i bob un sydd â diddordeb mewn chwarae yng Nghymru.

Caiff y newyddion ei ddiweddarau fel y bydd ein Tim Gwybodaeth yn ei dderbyn, ac mae'n cynnwys dolennau i ffynonellau gwybodaeth pellach perthnasol. Byddwn hefyd yn cynnwys hysbysiadau am ymgynghoriadau, cyfleoedd ariannu, digwyddiadau a swyddi. Mae ein gwefan yn prysur dyfu'n adnodd 'cwbl hanfodol' i ddarparwyr chwarae yng Nghymru.

www.chwaraecymru.org.uk

Ymddiriedolwyr Newydd

Pleser o'r mwyaf yw croesawu Mary Davies, Cydlynnydd Chwarae Cynhwysol Gwasanaethau Chwarae Plant Caerdydd, yn ymddiriedolwraig etholedig i Fwrdd Chwarae Cymru yn dilyn ei henwebu gan aelodau Chwarae Cymru.

Mae Malcolm King, Rheolwr maes chwarae antur 'The Venture' yn Wrecsam, sydd wedi gwasanaethu fel ymddiriedolwr penodedig ers nifer o flynyddoedd, bellach yn ymddiriedolwr etholedig hefyd.

Mae gennym un sedd wag yn dal ar ôl ar gyfer ymddiriedolwr/wraig i'w ethol gan yr aelodau. Os ydych yn aelod a bod gennych ddiddordeb cael eich enwebu ar gyfer y swydd hon cofiwch gysylltu â ni.

Diwrnod Chwarae – Dydd Mercher 1 Awst

Ariannwyd Play England i arwain yr ymgyrch Diwrnod Chwarae mewn ymgynghoriad â sefydliadau chwarae cenedlaethol eraill y DU. Mae'n cynnal gwaith ymchwil i gefnogi'r ymgyrch. Yn ogystal â pholau piniwn trwy'r DU, cynhelir rhai astudiaethau mwy trwyadl, yn cynnwys ymgynghoriad gydag Ysgol Gynradd Mount Stuart yng Nghaerdydd.

Thema'r Diwrnod Chwarae eleni yw Ein Strydoedd Ni Hefyd! Mae'r ymgyrch yn amlygu'r angen am newid, fel y gall plant, pobl ifanc a'u teuluoedd deimlo'n hyderus ynghylch chwarae mewn strydoedd ger eu cartrefi trwy gydol y flwyddyn.

Gall unrhyw un drefnu digwyddiad Diwrnod Chwarae neu gymryd rhan yn y dathliadau. 'Does dim rhaid i'ch Diwrnod Chwarae fod yn achlysur cyhoeddus anferth, efallai y byddai'n well gennych drefnu parti stryd bychan ar gyfer trigolion yn unig neu ddatlu gyda grŵp o ffrindiau a theulu. Cafodd

gwefan Diwrnod Chwarae ei ail-lansio â llawer mwy o wybodaeth, cyngor a sdrff hwyliog hefyd!

Gallwch lwytho taflenni cyngor ar drefnu digwyddiad (yn Gymraeg a Saesneg) i lawr o dudalen Digwyddiadau gwefan Chwarae Cymru neu ewch i http://www.playday.org.uk/playday_events.aspx

Os na allwch drefnu digwyddiad, ymwelwch â gwefan Diwrnod Chwarae ar www.playday.org.uk i weld sut y caiff Diwrnod Chwarae ei ddatlu yn eich hardal chi.

Amy Little, Swyddog Ymgyrchoedd, Play England



Ofn Mynd Allan I Chwarae

Mewn arolwg diweddar a gynhaliwyd gan Mencap dywedodd wyth deg y cant o'r plant a'r bobl ifanc ag anableddau dysgu a holwyd, fod ganddynt ofn gadael eu cartref rhag ofn iddynt gael eu bwlio.

Yn eu profiad hwy roeddent yn cael eu bwlio os oeddent yn mynd i'w parc lleol, i'r ysgol neu i'r clwb ar ôl ysgol.

Dywedodd llefarydd ar ran Mencap "Golyga hyn bod plant sydd ag anableddau dysgu'n colli cyfleoedd i ddysgu a gwneud ffrindiau, i gymdeithasu ac i chwarae."

Dysgwch ragor am ymgyrch 'Don't Stick It' Mencap ar www.dontstickit.org.uk

Briffiad Chwarae Cynhwysol ac Anabledd

Cyhoeddwyd taflen briffio Chwarae Cymru – **Chwarae Cynhwysol ac Anabledd**, yn gynharach eleni.

Mae'n archwilio'r rhwystrau sy'n rhwystro plant anabl rhag marfer eu hawl i chwarae a sut y gallwn eu goresgyn, yn ogystal â briffio ynghylch y cyd-destun cyfreithiol a pholisi cenedlaethol.

Gallwch lwytho'r daflen briffio i lawr o adran Chwarae ein gwefan www.chwaraecymru.org.uk neu anfonwch amlen fawr â'ch cyfeiriad a stamp arni atom er mwyn derbyn copi papur o faint A4.

Y Loteri FAWR

Caiff y Fenter Teuluoedd iach £20 miliwn ei rannu'n ddau, gyda £13 miliwn wedi ei glustnodi ar gyfer y Rhaglen Chwarae Plant a'r £7 miliwn arall ar gyfer y Rhaglen Ffordd o Fyw.

Derbyniodd Chwarae Cymru gytundeb i ddarparu cefnogaeth i MAWR i drosglwyddo'r Rhaglen Chwarae Plant, a derbyniodd Hall Aitken y cytundeb i gyflawni gwaith gyda'r Rhaglen Ffordd o Fyw. Mae Ffordd o Fyw yn rhaglen strategol fydd yn profi ffyrdd newydd o hyrwyddo bwyta'n iach a gweithgarwch ymysg plant trwy brosiectau sy'n cynnwys y teulu cyfan. Mae'r rhaglen hon bellach yn derbyn ceisiadau.

Am ragor o wybodaeth ymwelwch â www.cronfaloterifawr.org.uk

Chwarae, Pasteiod a Phomgranadau

Bwyd – ry'n ni gyd yn ei hoffi, yn enwedig plant (mae'n nhw'n flasus iawn gyda sôs coch!) ond mae cymaint o agendâu anghyson a chymaint o wahanol gyngor ar gael fel y gall fod yn anodd ar brydiau i wybod beth sydd orau i'w wneud.

Rydym yn teimlo ei bod yn bryd cynnig cefnogaeth i rweithwyr chwarae a darparwyr chwarae trwy ddarparu gwybodaeth ac arweiniad o safbwynt chwarae a gwaith chwarae.

Mae Chwarae Cymru wedi comisiynu Brian Cheeseman, cyn-Uwch Ddarlithydd ym Mhrifysgol y Leeds Metropolitan, mewn cydweithrediad â'r maethegydd Avril Aslett-Bentley, i ysgrifennu papur briffio ar gyfer gweithwyr chwarae, rheolwyr gwaith chwarae, swyddogion datblygu chwarae, arianwyr, a'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau i egluro ein rôl fel darparwyr chwarae a gweithwyr chwarae parthed bwyd a bwyta. Mae cryn bosibilrwyd y bydd yn 'chwalu' ambell i fyth ac yn herio rhai canfyddiadau a bydd yn siŵr o'n helpu i bledio achos chwarae.

Rydym yn disgwyl derbyn y drafft cyntaf yng nghanol mis Mehefin a bydd ar gael i'w lwytho i lawr o'n gwefan neu fel copi caled o'n swyddfeydd yn ystod yr haf.





Y newyddion diweddaraf gan dîm y Comisiynydd Plant



Mae gwaith fîm Comisiynydd Plant Cymru'n parhau yn dilyn marwolaeth Peter Clarke. Ymysg y datblygiadau diweddaraf mae lansiad rhif rhadffon newydd a phrosiect ar chwarae i blant a phobl ifanc anabl.

Bob blwyddyn caiff dros bum cant o blant a phobl ifanc **Beu** cynorthwyo gan wasanaeth Cyngor a Chefnogaeth y Comisiynydd Plant. Trwy gyflwyno'r gwasanaethau rhadffon a rhad-destun yn arbennig ar eu cyfer – yn ogystal â chyfeiriad ebost uniongyrchol cyngor@complantcymru.org.uk – hyderir y bydd rhagor o blant a phobl ifanc yn cysylltu â'r fîm yn uniongyrchol.

Yn ogystal â darparu gwybodaeth a chyngor ynghylch derbyn y gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt, mae fîm y Comisiynydd hefyd wedi galluogi a chefnogi pobl ifanc sy'n pryderu am ystod o wahanol faterion, yn cynnwys penderfyniadau cynllunio a chyfluoedd chwarae rhad yn eu cymunedau lleol. Mae'r gwasanaeth rhadffon ar agor yn ystod yr wythnos yn ystod oriau swyddfa ac mae ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg (gellir gwneud trefniadau hefyd i gael mynediad iddo mewn ieithoedd eraill).

Lansiwyd y rhif newydd ar y 23ain o Fai ac, fel rhan o'r gwaith hyrwyddo, cynhyrchwyd DVD. Fe ddaw'r DVD gyda phegyn i hwyluswyr, gaiff ei anfon i bob ysgol uwchradd yng Nghymru a'i ddarparu ar gyfer grwpiau a phrosiectau pobl ifanc eraill yn yr hydref. Mae un o'r senarios a geir ar y DVD yn ymwneud â chyfyngiadau ar chwarae.

Bob blwyddyn caiff plant a phobl ifanc leisio eu barn ar ddylanwadu cynllun gwaith y fîm a chlustnodwyd dau 'brosiect Comisiynydd'. Eleni, roedd y plant a'r bobl ifanc am i dîm y Comisiynydd edrych ar ffyrdd o 'wneud dysgu'n well'. O dan y pennawd chwarae a hamdden, roedd plant a phobl ifanc am wella mynediad a chyfluoedd i blant a phobl ifanc anabl i chwarae. Derbyniodd yr opsiwn hwn 30% o'r bleidlais a cheir rhagor o fanylion am hyn yn y rhifyn nesaf o Chwarae dros Gymru.

I ddysgu rhagor am waith Comisiynydd Plant Cymru ymwelwch â www.complantcymru.org.uk
Rhif rhadffon Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc yw

0808 8011000

Er mwyn cysylltu â'r gwasanaeth trwy rad-destun galwch 80800 a dechrau eich neges gyda COM.

Plant Yng Nghymru yn herio'r Llywodraeth

Yn ddiweddar cyhoeddodd Plant Yng Nghymru, y sefydliad ymbarél cenedlaethol ar gyfer mudiadau plant, 'Cymru Addas ar gyfer Plant a Phobl Ifanc 2007' sy'n amlinellu argymhellion ar gyfer camau allweddol i'r Llywodraeth yn cynnwys gweithredu Strategaeth Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Dwed Plant Yng Nghymru "Mae'r ddogfen yn herio'r gwleidyddion i fynd i'r afael â'r prif faterion y cred ein haelodau sydd angen sylw, er mwyn gwella bywydau plant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru."

Gellir llwytho'r ddogfen hon i lawr ar:
www.plantynghymru.org.uk/policy/news/7260.html

Rhagor o Arian ar gyfer Chwarae i Blant Anabl

Yn dilyn cyhoeddi £1 miliwn yn ychwanegol, a ddyfarnwyd fel rhan o gronfa Cymorth ar gyfer 2007-2008, ar gyfer cyfleusterau chwarae ar gyfer plant anabl, ysgrifennodd Llywodraeth Cynulliad Cymru at bob un o'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc ym mis Chwefror i ofyn am eu cynigion ar sut y byddent yn dymuno i'r cyllid ychwanegol gael ei ddefnyddio. Caiff yr arian ychwanegol yma ei rannu fel ychwanegiad i Cymorth.

Mae'r cynigion yn cael eu hasesu ar hyn o bryd gan Llywodraeth Cynulliad Cymru a gwneir datganiad maes o law.

Mae pob un o'r partneriaethau wedi ymateb mewn modd cadarnhaol ynghylch y cyllid hwn ac mae'r cynigion yn cyfeirio at ddefnydd amrywiol a llawn dychymyg o'r arian.



Pob Plentyn

Mae gan bob plentyn yr hawl i chwarae; mae'n hanfodol i bob un ohonom wrth inni dyfu i fyny. Pe na baem yn gwybod hyn eisoes o'n profiad personol, mae wedi ei gorffori yng Nghytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i gynnal gan Bolisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Fel darparwyr chwarae a gweithwyr chwarae mae gennym ddyfletswydd i ddarparu profiadau chwarae cynhwysol a chyfoethog i bob plentyn.

Pan fyddwn yn meddwl am chwarae cynhwysol, yn aml iawn byddwn yn meddwl yn gyntaf am blant sydd â namau – sy'n cael eu anablu gan gynllun yr amgylchedd y maent yn byw ynddo ac agweddau rhai o'r bobl o'u hamgylch. Ond golyga chwarae cynhwysol ddarparu ar gyfer pob plentyn all gael ei eithrio oherwydd ei ffydd, nam, diwylliant, cefndir cymdeithasol, iaith, ymddygiad neu angen. Yma rydym yn dathlu amrywiaeth plant Cymru.

Stori Josie

Yn ei swydd blaenorol roedd ein Swyddog Datblygu, Sarah Southern, yn gyfrifol am ddatblygu darpariaeth chwarae wedi ei staffio ym Mlaenau Gwent. Yma, mae'n adrodd stori Josie. Cafodd yr enwau eu newid:

Ym mis Medi y llynedd dechreuodd Canolfan Integredig Plant 'Heart of the Valleys' redeg sesiynau chwarae mynediad agored ar ôl ysgol.

Yn ystod yr wythnosau cyntaf fe gwrradom â theulu Josie oedd yn naw oed – roedd ei Mam wedi bod yn mynychu cwrs magu plant yn y Ganolfan ac fe ddaeth â'i dwy ferch draw. Roedd y ferch ieuengaf, Sue, yn mynychu'r ysgol gynradd prif ffrwd leol ac roedd yr hynaf, Josie, yn mynychu'r ysgol "arbenig" agosaf.

Er bod ei Mam wedi dod draw i gofrestru Sue, fe wnaethom egluro ein bod yn hapus i Josie fynychu. Wnaeth

hi ddim derbyn y cynnig ar y cychwyn, er yn fuan wedi iddi adael fe ddychwelodd gyda Josie, oedd wedi gwneud stŵr gan ei bod am aros i chwarae gyda'i chwaer a'i ffrindiau. Wedi inni dawelu meddwl ei Mam y byddem yn gallu "ymdopi" â Josie, fe adawodd ei dwy ferch yn y sesiwn chwarae. Yn fuan iawn roedd Josie a'i chwaer yn mynychu'n rheolaidd.

Ar y dechrau, roedd Sue yn warchodol iawn o Josie a threuliodd lawer o amser yn edrych ar ei hôl. Wrth inni dyfu'n fwy cyfarwydd â'r chwiriwydd daethom yn fwy abl i gefnogi eu chwarae – a golygodd hynny y gallai Sue chwarae gyda'i ffrindiau a'r plant

eraill heb y cyfrifoldeb o ofalu am Josie. Roedd Josie angen cefnogaeth gan y gweithwyr chwarae i hwyluso cyfathrebu â'i chyfoedion oedd ddim yn anabl. Wedi rhai wythnosau (a gwyliau hanner tymor) dywedodd ei Mam wrthym gymaint o "achubiaeth" oedd y sesiynau chwarae i'r teulu, gan eu bod yn darparu man diogel i'r merched chwarae allan gyda'u cyfeillion lleol, ac yn cynnig rhywfaint o seibiant ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau.

Nid oedd gennym unrhyw weithwyr chwarae cynhwysiad arbenigol ar y safle. Mae Josie yn dal i fynychu chwe mis yn ddiweddarach.



Cynllun Bwdi



"Rydym wedi dysgu dros y tair blynedd diwethaf bod darparu gwasanaeth gwirioneddol gynhwysol yn gofyn am ymdrech, brwdfrydedd, dealltwriaeth, amynedd a stamina."

Soniodd Janet Roberts wrthym am fenter Chwarae Cynhwysol yn Sir Y Fflint mewn rhifyn blaenorol o Chwarae dros Gymru. Yma mae'n adrodd yn ôl am y gwersi a ddysgwyd o safbwynt Swyddog Datblygu Chwarae:

Hon fydd y drydedd blwyddyn i'n 'Cynllun Bwdi' weithredu ar draws y sir – hynny yw, Cynllun Bwdi Sir Y Fflint a ariannwyd gan CYMORTH mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol a chynghorau tref a chymunedau lleol, sydd wedi darparu tystiolaeth o 'arfer da' yng nghyd-destun gweithio partneriaeth effeithiol a gwir gydlynad cymunedol a chynhwysiad cymdeithasol.

Yn ystod dyddiau cynnar ariannu CYMORTH, codwyd y mater o ddiffyg cyfleoedd chwarae ar gyfer plant ag anableddau yn y cyfarfod cychwynnol o Fforwm Chwarae Sir Y Fflint. Mewn ymateb i hyn, ffurfiodd yr Uned Chwarae a'r gweithwyr chwarae berthynas gyda phlant, teuluoedd a phobl broffesiynol eraill a daeth yn hanfodol i gynyddu hyder a dealltwriaeth yn y gwasanaeth y gallem ei gynnig. Yn dilyn llawer o drafod rhwng y partneriaid, ffurfiwyd clwb chwarae ar ôl oriau gwaith. Mae'n amlwg i'r clwb hwn fod yn fan cychwyn amhrisiadwy ar gyfer darparu gwasanaethau chwarae i blant anabl.

Golygodd llwyddiant y cynllun peilot cychwynnol hwn y gallai'r Uned Chwarae gynllunio'r Cynllun Bwdi i'w drosglwyddo fel rhan o'r rhaglen Cynllun Chwarae Haf sirol mewn partneriaeth â chynghorau tref a chymunedol lleol. Anfonwyd gweithwyr chwarae o'n Tîm Chwarae i weithredu fel Bwdis i grŵp bychan o blant anabl. Arweiniodd llwyddiant y prosiect peilot hwn at gyflogi deg o Bwdis Cynllun Chwarae yn ystod Haf 2006 i weithio gyda dau ddeg tri o blant oedd yn mynychu cynlluniau chwarae yn eu hardal eu hunain yn ystod yr haf.

Cyflogir Bwdis fel rhan o dîm chwarae ehangach ar y safle mewn cynlluniau chwarae haf a byddant yn darparu cefnogaeth un-i-un (ble fo angen) i blant anabl. Agwedd bwysig o'r rôl yw cynnal cysylltiad rhwng rhieni/gofalwyr a'r Uned Chwarae. Bydd Bwdis yn cwrrd â theuluoedd unigol cyn i'r cynllun ddechrau ac yn parhau i weithio â hwy trwy gydol oes y cynllun chwarae.

Mae hanner cant a phump o blant wedi cofrestru gyda'r Cynllun Bwdi ar gyfer Haf 2007 ac rydym wedi recriwtio ugain o Bwdis Cynllun Chwarae.

Mae gwerthuso'r cynlluniau wedi rhoi llawer o dystiolaeth inni ynghylch yr angen am yn ogystal â llwyddiant pob cynllun ac mae'n dangos effaith bychan ond arwyddocaol.

Allen ni ddim bod wedi cyflawni hyn oni bai am gymorth:

Y plant a'r bobl ifanc; y rhieni a'r gofalwyr;

PPPI Sir Y Fflint; GAIP Sir Y Fflint (Gwasanaeth Anabledd Integredig Plant); Ysgol y Bryn, Shotton; Cynghorau Tref a Chymuned Lleol Sir Y Fflint.

Rydym wedi dysgu, er mwyn sicrhau newid, y bu angen i'n gwasanaeth addasu. Yn fyr, bu angen inni:

- Drefnu cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb â theuluoedd er mwyn siarad 'yn agored' ac yn onest
- Bod yn barod i wrando ar feirniadaeth gan deuluoedd a phlant – yn seiliedig ar brofiadau negyddol blaenorol! Roedd yn rhaid inni fod yn barod i'w 'chymryd hi'n ddi-gŵyn' a 'symud ymlaen'
- Bod yn barod i dderbyn bod angen i'r gwasanaeth newid
- Bod yn onest, yn agored, yn hyblyg yn ein hagwedd ac yn realistig
- Bod yn barod i symud 'dau gam ymlaen a thri cham yn ôl'
- Bod yn barod i fynd y tu hwnt i'n 'cylch cyffordduswydd'. (Doedden ni ddim yn sylweddoli bod gennym ni un hyd yn oed – ond mae'n debyg bod!) Yn fy mhrofiad i, bu'n rhaid inni oresgyn yr ofn o gael rhywbeth yn anghywir i'r plentyn a pheidio â chwrrd â disgygliadau pobl broffesiynol eraill
- Cadw'r neges yn syml! – mae gan **bob** plentyn hawl i chwarae'n lleol
- Mabwysiadu agwedd bartneriaeth a bod yn barod am drafodaethau'n llawn angerdd. Rydym yn siarad am newid agweddau, am gael 'dwyrain i gwrdd â'r gorllewin', felly bu'n rhaid symud yn araf a gweithio gyda phobl a phobl broffesiynol eraill ar eu cyflymdra hwy
- Gwaredu'r model meddygol ac annog nerth rhieni. Gwaredu'r rhwystrau ar gyfer **pob** plentyn, er enghraifft os nad oedd toledau ar gael, yna nid oedd toledau ar gael ar gyfer unrhyw blant yn lleol, yr unig ateb oedd gweithio o amgylch y broblem a pheidio ag edrych arno fel rhwystr i lwyddiant
- Fel rhieni neu ofalwyr, mae pob un ohonom ar yr un 'continwrm paranoia' ble y mae ein plant dan sylw a'n amharodwydd i roi rhyddid a hawl iddynt chwarae. Roedd yn bwysig inni fabwysiadu agwedd empathig, i gydnabod bod gennym fel rhieni i gyd ofnau, ond i wthio'n araf deg a chadarn am gyfleoedd chwarae o safon
- Mae gan bob plentyn yr hawl, ond efallai nid y rhyddid, i chwarae. Mae sut y byddwn yn galluogi'r broses chwarae, yn enwedig ar gyfer y plant hynny sydd â'r anableddau mwyaf dwys a lluosog, yn ddibynnol ar agwedd, dyfeisgarwch a chreadigrwydd yr oedolion o'u hamgylch
- Cadw'n gryf wrth drosglwyddo'r neges! Gallwn fod yn hyblyg yn y modd y byddwn yn trosglwyddo chwarae, ond mae'r neges yn aros yr un fath
- Rydym unai'n credu yn hawliau'r plentyn neu ddim – mae mor syml â hynny. Ni allwn 'lastwreiddio'r neges' i gynnwys rhai a dim rhai eraill, yr unig wahaniaeth i rai plant anabl yw'r lefel o gefnogaeth all fod ei hangen. Nid oes lle, yn fy marn i, i 'griteria' ar gyfer chwarae plant, dim ond angen am gefnogaeth, dyfeisgarwch a gweithio partneriaeth llawn ac ymroddedig.

Fu'r datganiad 'Gyda'n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth' erioed yn fwy gwir!

Janet Roberts
Swyddog Datblygu Chwarae Sir Y Fflint, 01352 702456



Persbectif Rhyngwladol

Stori plentyn teithwyr o Belfast

“Waeth beth y bydd Teithiwr yn ei wneud, gawn nhw ddim eu derbyn”

Rwyf wrth fy modd yn bod yn Deithiwr. Rwy'n cael chwarae allan trwy'r dydd, heblaw pan fydd raid i mi fynd i'r ysgol. Mae'r mynydd yn well na maes chwarae. Rydw i a fy ffrindiau'n cael lot o ryddid.

Rydwi i wedi bod i lawer o wahanol ysgolion, dros lwerddon i gyd, ond 'dyw'r un yr ydwi i ynddi nawr yn Belfast ddim yn ddrwg. Roedd yna un ysgol yn Nulyn, yr aeth fy chwaer fawr iddi, gyda chawod yn y dosbarth! Wel, mewn gwirionedd caban oedd o yng nghanol yr ysgol fawr ble roedd plant eraill yr ardal i gyd yn mynd iddi. Roedd plant y Teithwyr i gyd yn mynd gyda'i gilydd i'r caban, ar wahân i fy nghyfrither, oedd yn alluog iawn medde' nhw; fe gafodd hi ei symud i'r adeilad mawr. Ond 'doedd o ddim yn llawer o hwyl iddi hi oherwydd fe ddywedon nhw wrthi beidio â chymysgu gyda ni gan y bydde' ni'n ddylanwad drwg.

Ni oedd plant glana'r ardal, byddai Ma'n ein sgwrio nes bod ein wynebau'n sgleinio ... ac yna fe fyddai'r athrawon yn ein golchi. Roeddai'n ti'n sylweddoli dy fod yn wahanol pan fyddet yn cael dy ginio ar blatiau gwahanol i'r plant eraill; rhai plastig oedd ein rhai ni, ti'n gwybod, y math y byddi'n eu taflu i'r fasged sbwriel wedi i ti fwyta.

Fyddwn ni ddim yn symud o amgylch gymaint y dyddiau hyn, 'does dim llawer o safleoedd inni barcio'r trelar ynddyn nhw. Mae'r bobl sefydlog am inni fyw mewn tai, ond fe glywais i Deithwyr eraill sy'n byw mewn tai yn dweud nad ydyn nhw'n cael eu derbyn. Ar y ffordd i'r ysgol y bore yma fe waeddodd grŵp o ferched bychain, fy oed i, i mewn trwy ffenest y car, "Teithwyr budr, budr". Mae Ma yn dweud, "Waeth beth y bydd Teithiwr yn ei wneud, gawn nhw ddim eu derbyn" ac rwy'n ei chredu.

FFEITHIAU

- Mae Teithwyr Gwyddelig yn bobl frodorol sy'n gallu olrhain eu gwreiddiau'n ôl dros gannoedd o flynyddoedd.
- Mae disgwiliad einioes Teithwyr tua 20 mlynedd yn llai na phobl sefydlog.
- Mae'r gyfradd marwolaethau babanod dair gwaith yn uwch na'r boblogaeth gyffredin.
- Mae 92% o Deithwyr heb unrhyw raddau TGAU a cheir lefel uchel o anlythrennedd. Mae llai o gyfleoedd ar gyfer cyflawni safonau addysgol ac mae lle i astudio gartref yn brin, os oes lle o gwbl.

Prosiect Teithwyr Torfaen

Yn darparu cyfleoedd chwarae ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yn amgylchedd eu cymuned eu hunain.

Fel pobl broffesiynol ym maes chwarae, credwn fod gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i brofi cyfleoedd chwarae ysgogol a diogel yn amgylchedd eu cymuned eu hunain.

O gofio hyn, dros y flwyddyn diwethaf mae Gwasanaeth Chwarae Torfaen wedi ffurfio cysylltiadau cadarnhaol gyda'r safle teithwyr ar Shepherds Hill, Pont-y-pŵl. Yn y cychwyn, fe ddechreuom trwy ddarparu a chefnogi dau weithiwr chwarae i weithio dros sesiynau o awr ar y tro yn ystod gwyliau'r hanner tymor, i roi blas i'r plant a'r bobl ifanc o'r hyn yr ydym yn ei wneud. Trwy gyflwyno'r sesiynau chwarae mewn modd araf a chyson, caniatodd hyn inni adeiladu ymddiriedaeth gyda'r gymuned a chyfleu ein bod yno i ddarparu cyfleoedd chwarae'n unig, ac nad oedd gennym yr un agenda gudd arall.

Arweiniodd yr ymateb cadarnhaol at gyfleoedd gwaith maes wythnosol ar y safle. Yn ogystal, mae'r gweithwyr chwarae wedi annog dau o aelodau'r safle i ddod yn wirfoddolwyr ac i helpu gyda rhedeg y sesiynau chwarae. Arweiniodd hyn at ffurfio cynllun chwarae haf yn neuadd Pont-y-moel sydd gerllaw safle'r teithwyr. Rydym yn cynnig cyfleoedd hyfforddiant er mwyn rhoi cyfle i aelodau o'r safle sydd dros un ar bymtheg oed i reddeg eu darpariaeth chwarae eu hunain gyda chefnogaeth ein gwasanaeth chwarae ni.

Mae'r niferoedd dyddiol o blant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y cyfleoedd chwarae wedi tyfu i bump ar hugain ar rai dyddiau. Lleolir y safle mewn amgylchedd naturiol, sy'n caniatáu ystod eang o brofiadau chwarae amrywiol a chyfoethog – sy'n rhoi cyfle i'r plant a'r



bobl ifanc i gofleidio'r amgylchedd naturiol trwy gyfrwng chwarae. Mae cyfleoedd chwarae poblogaidd a ddarparwyd ar y safle'n cynnwys gemau parasiwt, ymladdfeydd dŵr ac adeiladu cuddfannau. Mae hyn wedi caniatáu ac ysbrydoli'r plant a'r bobl ifanc i brofi amrywiol fathau o chwarae ac i ymwneud a'r elfennau naturiol.

Andrea Sysum, Gwasanaeth Chwarae Torfaen, 01495 740924



Chwarae yn y Mosg

Yma mae Carmen Thompson, Gweithwraig Datblygu Chwarae Lleiafrifoedd Ethnig Dinas a Sir Abertawe'n sôn wrthym am brosiect diweddar:

Trwy gydol y flwyddyn diwethaf rwyf wedi bod wrthi'n sefydlu fy rôl fel Gweithwraig Datblygu Chwarae Lleiafrifoedd Ethnig gyda'r Tîm Chwarae Plant yn Abertawe.

Mae nifer cynyddol o deuluoedd lleiafrifoedd ethnig a cheiswyr lloches yn byw yn Abertawe ar hyn o bryd, ond mae'r nifer o blant o'r cymunedau hyn sy'n cymryd rhan mewn darpariaeth leol ar ôl ysgol a gwylliau yn isel o'i gymharu â grwpiau eraill o'r boblogaeth. Fy nod fel Gweithwraig Datblygu fu ceisio unioni'r fantol ac annog rhagor o blant i elwa o'r amrywiaeth o gyfleoedd chwarae o safon sydd ar gael yn eu hardal leol.

Cynhaliwyd un prosiect, ble yr oedd yn amlwg bod plant du a lleiafrifoedd ethnig leol yn absennol, yn ardal ethnig amrywiol a phoblog Sain Helen. Yn dilyn monitro ffigyrau mynychu daeth yn amlwg, er i'r prosiect fod yn llwyddiannus ar y dechrau wrth ddenu nifer fechan o blant o'r boblogaeth amrywiol leol, ei fod wedi methu cynnal diddordeb y grŵp penodol hwn tra bo eu cyfoedion yn parhau i fynyachu.

Pam oedd niferoedd y plant hyn wedi edwino?

Beth allwn i ei wneud i geisio gwneud clybiau chwarae y dyfodol yn fwy cynhwysol a'u cael i apelio at gymuned amrywiol?

Sut allwn i gyfleu'r neges i'r gymuned hon, bod y cyfleoedd chwarae oedd ar gael yn lleol o fudd mawr i ddatblygiad eu plant, i'w cymunedau hwy, ac i gydlyniad y gymuned yn gyffredinol?

Arweiniodd y cwestiynau hyn at lansiо prosiect chwarae ac ymgynghori ym Mosg Abertawe, ble y buom yn archwilio ffyrdd i ymwneud â'r plant. Trefnais gyflwyniad byr ar gyfer yr Imam, arweinyddion y gymuned a phlant moslemaidd lleol yn ystod eu cwrdd gweddi hwylol. Cefais gyfle i gyflwyno fy hun, egluro fy rôl a hyrwyddo buddiannau chwarae i unigolion ac i'r gymuned yn gyffredinol.

Lansiwyd prosiect pum wythnos ble y trosglwyddwyd sesiynau 'profi chwarae' yn y Mosg, gan ddenu pedwar ugain o blant. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd gwaith ymgynghori yn ystod y sesiynau. Cydweithiais â Gweithwraig Datblygu Cymunedau'n Gyntaf oedd o gefndir moslemaidd. Llwyddom i gasglu ymatebion gan saith deg pump o blant oedd yn byw yn nifer o gymdogaethau amrywiol Abertawe, gan ein galluogi i greu darlun ynghylch eu presenoldeb mewn cynlluniau a chlybiau chwarae.

Dim ond un rhan o dair o'r 75 o blant a holwyd ddywedodd eu bod yn mynychu



clybiau ar ôl ysgol, a nododd 13% bod amserau clybiau gyda'r nos yn gwrthdaro gydag amser mynd i'r mosg, a dywedodd 11% nad oedd eu rhieni'n caniatáu iddynt fynyachu.

Dim ond 35% o'r rhai a holwyd oedd yn mynychu cynlluniau chwarae yn ystod y gwylliau, gyda 28% ohonynt yn nodi amrywiol resymau megis diffyg amser, bod yn rhy brysyr, neu ddim yn gallu trafferthu mynd i'r clwb.

Yn ystod y sesiynau profi, daeth y plant yn gyfarwydd â mi a'm cydweithwyr yn y Tîm Chwarae – gan greu ymdeimlad o ymddiried. I lawer o'r plant roedd hwn efallai'n gyfle priu i chwarae'n rhydd ac archwilio deunyddiau chwarae a rhannau rhydd mewn nifer o wahanol ffyrdd creadigol. I eraill, roedd yn cynnig cyfle i gymryd rhan mewn chwarae rôl, neu chwarae gwyllt mwy corfforol heb gyfyngiadau rhieni. Roedd y prosiect hwn yn cynnig cipolwg i bob plentyn o'r hyn allai fod ar gael mewn cynlluniau chwarae lleol sydd ar rinog y drws. Trwy brofiad uniongyrchol roedd modd iddynt ddatblygu gwell ymwybyddiaeth o werth a mwynhad chwarae. Roedd plant hyn, oedd wedi dweud wrthym ar y dechrau eu bod yn 'rhy hen' i ddefnyddio rhai o'r pethau oedd gennym gyda ni, yn ymdafu eu hunain i'r chwarae ac yn amharod iawn i'r sesiwn ddod i ben.

Roedd ein hymwelidau â'r mosg yn creu cyffro enfawr ymysg y plant, a byddai rhieni Moslemaidd yn taro eu pen trwy ddrws ein 'man chwarae' i gwrrd â ni a dysgu rhagor am ein gwaith. Bu'r Imam yn ein helpu i roi cyhoeddusrwydd i gynlluniau a chlybiau chwarae yn y dyfodol, ymysg plant moslemaidd lleol yn ogystal â'u rhieni. Rhai o'n strategaethau eraill i gynyddu

ymddiriedaeth oedd: mynychu gwasanaethau ysgol; hyrwyddo'r neges bod cynlluniau chwarae'n 'gynhwysol'; a gwneud yn siŵr bod rhieni lleol yn fy adnabod i a fy rôl.

Yn dilyn y sesiynau chwarae yn y mosg, hyrwyddwyd y cynllun chwarae dilynol yn ardal Sain Helen fel 'Cynllun Cymunedol' a drosglwyddwyd gan bartneriaeth rhwng MEWN (Minority Ethnic Women's Network), fîm gweithwyr chwarae Tardis Abertawe a minnau. Dyluniwyd posteri hysbysebu yn dangos plant yn chwarae, oedd yn cynnwys ystod ehangach o ddelweddau 'clip art' lleiafrifoedd ethnig er mwyn atgyfnerthu neges gynhwysol. Roedd gweithio mewn partneriaeth â Gweithwraig Datblygu MEWN o'r gweithwyr chwarae'n golygu bod yr aelodau hyn o'r fîm yn adnabyddus i'r plant o'r teuluoedd moslemaidd, yn ogystal â bod o gefndir diwyllianol tebyg.

Roedd y nifer o blant DLIE a fynychodd y cynllun hwn yn uwch na'r nifer a fynychodd y prosiect chwarae blaenorol, gyda dau ddeg tri o blant Asiaidd neu foslemaidd yn cymryd rhan dros ddau ddiwrnod allan o gyfanswm o saith deg naw o fynychwyr.

Felly beth yn digwydd yn y dyfodol?

Yn ddiweddar cyflwynais gais ariannu i MAWR, ac rwy'n hyderu y bydd llawer mwy o blant o gymunedau amrywiol Abertawe'n cael cyfle'n fuan i brofi'r oll sydd gan ein sesiynau profi chwarae i'w cynnig.

Fy mreuddwyd a'm gobaiith yw y byddant yn eu cael eu hunain yn cymryd rhan yn ein darpariaeth chwarae prif ffrwd, ble y gallant gymysgu gydag eraill a chreu cysylltiadau a chyfeillgarwch fydd yn parhau y tu allan o'r tu hwnt i'r hyn y byddwn yn ei ddarparu.

Carmen Thompson
01792 635156



Canfod y llwybr at

Penny Wilson, Gweithwraig Cynhwysiad gyda Chymdeithas Chwarae Tower Hamlets, sy'n sôn am ei phrofiad o weithio gyda phlant anabl. Mae'n aelod o'r Grŵp Archwilio a gynorthwyodd y broses o lunio'r Egwyddorion Gwaith Chwarae

Trefnodd y bachgen naw mlwydd oed a'r gweithiwr chwarae bob un o'r teganau meddal o amgylch yml y pwll sych. Beth bynnag oeddent wrthi'n ei wneud, roedd y ddau ohonynt wedi ymgolli'n llwyr yn y dasg.

I berson sydd ddim yn weithiwr chwarae, fyddai dim rheswm amlwg pam fod y bachgen hwn yn defnyddio maes chwarae cynhwysol ac angen cefnogaeth gweithiwr chwarae i wneud hynny. Ond, gwyddai'r gweithiwr chwarae na allai'r bachgen ymdopi i fod yma heb gefnogaeth. Maent wedi dod i adnabod 'diwylliant' y plentyn; maent yn gwybod bod ganddo ddiddordeb hollysol am bob math o chwedloniaeth ac nad yw'n gallu darllen. Fe all fod yn danllyd ac yn llawn creadigedd ac ar brydiau'n hunanladdol o isel ei ysbryd. Ambell ddiwrnod gall fod mor ddig fel y bydd yn troi'n dreisgar a thro arall gall ganfod yr awen i ddisgrifio awyr gymylog fel enfys llwyd. Weithiau bydd yn creu gweithiau celf anhygoel o sbwriel a thro arall bydd yn gwrthod bwyta unrhyw fwyd nad yw'n grwn. Heb allu ymroddedig a dychmygus ymyrraeth gweithwyr chwarae da, ni allai'r bachgen hwn hyd yn oed ddiodeff i fod yma, yn y maes chwarae antur mwyaf hynaws hwn, ar ddiwrnod tawel.

Ai dyma'r hyn y byddwn yn meddwl amdano pan fyddwn yn siarad am chwarae cynhwysol?

Nage mae'n debyg. Fe fyddwn i'n tybio mai'r ddelwedd ddaw i'r meddwl yw un o blentyn sy'n defnyddio cadair olwyn yn troi i fyny ar safle ac am chwarae gyda'i ffrindiau a'i fod yn methu mynd i mewn gan fod neb wedi cofio lleu'r drysau.

Rwy'n cofio plentyn ifanc chwaraeodd ran flaenllaw ar y maes chwarae ble yr oeddwn yn gweithio. Dyma oedd ei

ddiwylliant: roedd yn gymeriad cryf ac yn siarad yn ddi-flewyn-ar-dafod. Roedd yn gwbl ddall. Roedd yn ffraeth ac yn alluog iawn yn gorfforol. Roedd yn meddu ar draw perffaith a byddai'n creu cerddoriaeth byrfyfyr anhygoel ar ein piano hynafol. Roedd yn aelod o drydedd cenhedlaeth o deulu a ddaeth o Jamaica. Un diwrnod, daeth oedolyn oedd yn ymwelydd rheolaidd â'r safle a phlethu ei freichiau o dan geseiliau'r bachgen a'i sgubo i'r awyr. Roedd y plentyn yn gandryll gyda'r symudiad sydyn, dychrynlyd ac annisgwyl yma a bloeddiodd "Oii! Dwi'n ddall chi'n gwybod!" Un gwirionedd syml wnaeth fy mwrw pan waeddodd y geiriau hynny oedd ei fod yn gallu dweud wrthym sut i ymdrin â'i anabledd. Efallai nad oedd ganddo syniad sut beth oedd gweld ond yn sicr roedd yn deall yr hyn oedd angen i ni, y bobl oedd yn gweld, ei wybod am ei fyd e'.

Ni allai'r bachgen oedd yn eistedd ar yml y pwll yn trefnu teganau meddal ddisgrifio'r hyn yr oedd ei angen inni mewn modd mor eglur. Roedd ei anghenion yn rhai niferus a chymhleth a byddai wedi cymryd naid anferth a haniaethol mewn dealltwriaeth iddo ddeall digon ar ei gymhlethdod ei hun i roi unrhyw wybodaeth ddefnyddiol inni. Doedd dim modd o gwbl iddo ddychmygu sut beth yw byw heb ei anabledd e', felly allen ni ddim disgwyl iddo egluro ei anabledd inni. Ond fe allai ddefnyddio geiriau i roi blas inni ar ei fyd e'.

Roeddwn wrth fy modd nad oedd Egwyddorion Gwaith Chwarae (2005) yn cynnwys y gair 'anabledd'. Yn hytrach, maent yn sôn am 'bob plentyn a pherson ifanc', am 'fframwaith profesiynol a moesegol' ac yn 'disgrifio'r hyn sy'n unigryw am chwarae a gwaith chwarae'. Mae hynny'n ddigon.

Sut allwn ni fel gweithwyr chwarae



ganfod byd mewnol plentyn sydd ddim yn siarad? Yn yr un modd y bydd gweithwyr chwarae'n canfod byd mewnol pob plentyn sy'n chwarae. Byddwn yn arsylwi, yn dadansoddi, yn myfyrio. Byddwn yn defnyddio sgiliau ein crefft. Ein gwaith ni yw canfod dealltwriaeth a chwrad ag anghenion pob plentyn i chwarae.



Belydrau'r Haul



awtistiaeth wrth iddynt greu eu chwarae gwyllt a gwych. Fyddwn i fyth wedi dysgu i siglo yn ôl a blaen ger boncyff coeden er mwyn profi ac ail-brofi'r llawenydd o weld pelydrau'r haul trwy'r cangau, pe na bawn wedi gweld plentyn ag awtistiaeth yn gwneud hynny. Byddai wedi bod yn ddigon hawdd camgymryd hyn am siglo defodol a'i ddiystyru, ond rwy'n weithiwr chwarae, ac fe fyddwn yn gwneud pethau mewn modd gwahanol.

Mae fy nghreff fel gweithwraig chwarae'n gofyn i mi gadw llygad ar y theorïau diweddaraf. I mi, golyga hyn hysbysu fy hun am wahanol anableddau. Os ydw i am ddeall persbectif byd plentyn ag awtistiaeth, yna gallaf ddarllen Dona Williams (*Somebody Somewhere*, 2004) all ddweud wrthyf yn ddigon eglur am y modd y mae hi'n gweld y byd a sut y mae ei synhwyrau wedi eu tiwnio'n wahanol. Trwy ei chyfathrebu hi, gallaf ddeall yr ysgogiad cynhenid i weld prydferthwch pelydrau'r haul drosodd a throsodd.

Trwy hysbysu fy hun am anghenion corfforol plentyn sydd ag epilepsi sy'n effeithio ar ei atblygiad llyncu, gallaf wneud yn siŵr – pan fydd yn dechrau boddï ar ei fwyd, fy mod yn gwybod beth sydd angen i mi ei wneud er mwyn achub ei fywyd, fel a ddigwyddodd gydag Ibrahim. Yn ogystal, dysgodd Ibrahim i mi am barch a gofal Islamaidd trwy ymyrraeth cariadus ei fam. Dysgais yr hyn oedd yn gyfforddus a chyfarwydd iddo a sut i barchu ffydd ei deulu. Dysgais hefyd sut i weithio gyda phlentyn sy'n ddal a byddar ac sydd â fawr ddim defnydd o'i ddwylo ac sy'n methu siarad, ac sydd ond yn gallu dal ei bwysau ei hun am gyfnodau byr iawn a hynny gyda chymorth oedolyn. Mae'r plentyn hwn yn gwlychu a baeddu ei hun a bydd angen cymorth dau weithiwr chwarae i newid pad brwnt. A yw hyn yn golygu ein bod mewn gwirionedd yn weithwyr gofal? Ddim o gwbl. Dangosodd Ibrahim inni, ar yr adegau preifat a hwyliog hyn, y gallai godi ei gefn pan oedd angen inni lithro ei ddillad neu bad glân o dan ei ben ôl. Trwy hyn fe ddysgom ei fod yn deall cyffyrddiad corfforol a bod ganddo nerth yng

nghyhyrau ei gefn. O sylwi ar ffyrfer cyhyrau ei gefn fe ddysgom i fesur, wrth inni ei gynnal i gerdded, pan oedd â diddordeb, pan oedd wedi diflasu neu wedi blino. Fe ddysgom i ddarllen ei arwyddion chwarae hynod o benodol. O hynny ymlaen, datblygodd ei chwarae gan ein bod wedi canfod ffordd o gyfathrebu. Fe ddechreuodd y plentyn hwn oedd yn 10 oed, nad oedd erioed wedi chwarae â bodiau ei draed pan yn fabi na gweld wyneb ei fam, ganfod ei natur chwareus gyda ni.

Ynghyd â llawer o blant eraill, fe wnaethom sylweddoli pa mor bwysig oedd cael cornel ar y safle oedd yn gyfforddus a distaw a thawai iddo orffwys ar ôl cyfnod chwareus. Fe welom y gallai plant eraill, unwaith iddo ganfod ei chwarae, ymuno ag e' ac archwilio eu profiadau gyda'n cefnogaeth ninnau. Roedd yn dasg anodd, canfod chwarae person arall a'i deimlo'n gorfforol ac yn emosynol ond eto heb orfodi ein chwarae ein hunain ar y plentyn, ond fe ddaethom o hyd i ffordd i'w wneud. Fe ddysgom fod yn rhaid i blentyn sy'n gwlychu a baeddu ei hun ac sydd angen cymorth gyda bywd ac sydd angen cymryd moddion, gael yr anghenion hyn wedi eu hateb fel rhan annatod o'u hamgylchedd. Os ydynt wedi cael y diwrnod chwarae gorau erioed, ond eu bod yn frwnt ac heb gael eu moddion, yna byddwn yn colli ymddiriedaeth y rhieni sy'n mentro'n arw wrth anfon eu plentyn i leoliad cynhwysol. Heb gael y plant yno allwn ni ddim chwarae. Mae'n ofynnol inni gwrdd â'u anghenion sylfaenol yn union fel y byddwn yn cwrdd â gofynion iechyd a diogelwch y safle.

Fe fyddaf bob amser yn efengylaidd ynghylch chwarae cynhwysol – trwy hynodrwydd chwarae ar y cyd byddwn yn dysgu i ddeall a mwynhau gwahaniaeth.

Mae'r bachgen naw oed a'r dyn yn symud oddi wrth y cylch o deganau meddal ac ymlaen at ffrâm chwarae arall. Ond caiff y teganau eu cymryd gan blant eraill a theithio ar anturiau newydd o amgylch y safle. Mae'r gêm wedi dal gafael ac mae'n ymledu.

Felly at chwarae'r plentyn y dylem droi ein sylw. Ar un adeg, pan ddechreuais yn y gwaith yma, dywedwyd wrthyf mai un o'r disgrifiadau diffiniol o blentyn ag awtistiaeth oedd nad oeddent yn chwarae. Sut ar wyneb y ddaear ddaeth hynny'n ddoethineb cyffredin? Rwyf wastad wedi teimlo'n dwpsyn llwyr, wedi fy narostwng wrth draed plant ag



Dyddiadur Dan Rees-Jones 'Darllen Map ar y Dibyn'



- Dilyn y trywydd perffaith • Y bywyd perffaith • Beth allai fynd o'i le?

Enw: Daniel Rees-Jones
Pwysau: 126 pwys (ond ddim ar ôl y 'Dolig)
Swydd: Rhodiwr Chwarae, Cydlynedd & Ymchwilydd/Golygydd Cwrs

Hanes

Ym mis Rhagfyr dechreuais ar fy rôl newydd gyda'r Partneriaethau Gwaith Chwarae i ymchwilio ysgrifennu cwrs lefel dau wedi ei anelu at Rodwyr Chwarae o'r enw 'Chwarae Mas yn eu Cynefin' gyda'r bwriad allweddol o gefnogi ag ymestyn sgiliau a gwybodaeth y nifer cynyddol o weithwyr chwarae sy'n gweithio y tu allan mewn amgylcheddau mynediad agored. Yn fuan iawn sylweddolais nad oedd pawb yn gyfarwydd â'r term Rhodiwr Chwarae. Felly, yn gyntaf, dewch inni chwalu'r myth sy'n perthyn i'r teitl.

Y diffiniad (hyd yma) yw:

"Gweithwyr chwarae cymwysedig sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn parc lleol neu fan agored cyhoeddus i hwyluso chwarae plant."

Maent yn 'weithwyr annibynnol' all ddod ag offer gyda hwy ac annog plant i wneud rhagor o ddefnydd o barciau a mannau agored yn eu cymunedau eu hunain. Maent yn gweithredu ar egwyddor 'mynediad agored', sy'n golygu bod plant yn rhydd i fynd â dod fel y dymunant; ni chodir tâl ac ni fydd angen cofrestru. Annogir plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r sesiynau yn eu modd eu hunain a chwarae hunan-gyfeiriedig a ddewisir yn rhydd yw un o elfennau allweddol darparu'r gwasanaeth hwn.

Mannau Cychwyn

Gyda chyfarwyddiadau gan Richard a Ben yn Chwarae Cymru, penderfynais fynd ar daith o amgylch prosiectau rhodwyr chwarae/mynediad agored sy'n bodoli eisoes ym mhob cwr o Gymru.

Dyddiad: 19eg Chwefror – Dechrau neilltuol o dda

Lleoliad: Safle Chwarae Antur yn Nhredegar Newydd

Gallu dilyn cyfarwyddiadau'r map: 10% yn effeithiol ... mynd ar goll yn llwyr wrth yrru yno, gan fynd 24 milltir allan o'r ffordd!

Cyswllt: Lisa Williams, Cydlynedd Chwarae GAVO

Tywydd: Glaw llorweddol gyda gwyntoedd cryfion

Chwarae: Er gwaetha'r tywydd garw roedd plant yn mwynhau yr hyn ymddangosai i mi fel y gêm 'Running The Gauntlet' o'r rhaglen deledu 'Gladiators' gyda phadiau chwarae meddal, mwd a glaw. Canlyniad: gwlyb a mwalyd dros ben. Llauer o hwyl.



Dyddiad: 23ain Chwefror – Diwrnod twyllodrus o oer – camgymeriad oedd anghofio'r het

Lleoliad: Ardal chwarae offer sefydlog ym Merthyr Tudful

Gallu dilyn cyfarwyddiadau'r map: 95% yn effeithiol, treulio dim ond hanner awr yn mynd ar goll ac mewn penbleth ym maes parcio'r Tesco lleol

Cyswllt: Sarah Williams, Fforwm Chwarae Merthyr Tudful

Tywydd: Cymylog gydag ambell i gawod o law yn ogystal â gwyntoedd deifiol o oer

Chwarae: Creu hamogau a chuddfannau, wnaeth droi'n y diwedd yn un lefiathan anferthol gyda chymorth parasiwt ac 20 rhaff sgipio. Yna cafwyd gemau llithro "chwarae dwfn".

Dyddiad: 7ed Mawrth – Diwrnod ysbrydoledig

Lleoliad: Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig Y Barri

Gallu dilyn cyfarwyddiadau'r map: 90% yn effeithiol, gyda dim ond un tro bach o amgylch y dociau

Cyswllt: Joanne Jones, Swyddog Datblygu Chwarae, Y Barri

Tywydd: Heulog a hyfryd

Chwarae: Gan fod y gwasanaeth chwarae'n un tymhorol ar y pryd, cafwyd cyfarfod a sgwrs dda am ddarparu'r gwasanaeth gan ganolbwyntio ar ei bwysigrwydd a'i effaith ar wahanol gymunedau. Cynhaliwyd y cyfarfod yn Neuadd anarferol a hardd y Dref yn Y Barri.

Dyddiad: 12ed Mawrth – Diwrnod braf i fynd am dro trwy'r goedwig

Lleoliad: Coedwig breifat, mewn cilfan ger Y Bontnewydd ar Wy, 40 cam oddi wrth y clawdd gyda'r hen deledu.

Gallu dilyn cyfarwyddiadau'r map: 100%! Roedd cyfarwyddiadau 'Helfa Drysor' dyrys Nik yn rhy chwareus i'w cael yn anghywir!

Cyswllt: Nik Waller, 'Play Supply'

Tywydd: Diwrnod heulog braf

Chwarae: Adeiladu cuddfannau a thannau mewn coedwig breifat hyfryd, gyda rhywfaint o nofio fferilyd o oer yn yr afon Gwy! Uchafbwynt, yfed sudd bedwen arian.



Dyddiad: 12ed Mawrth – *trychineb darllen map*

Lleoliad: 'Drop in and Play', Wrecsam

Gallu diliyn cyfarwyddiadau'r map: 2% yn effeithiol. Fe gyrhaeddais Wrecsam ond bu raid i mi gael fy nghodi. Hen dro!

Cyswllt: Diane Prydden, Cynlluniau Chwarae Wrecsam

Tywydd: Diwrnod heulog hyfryd ond oer

Chwarae: Fe wnaeth chwarae pêl-droed, yn yr Ardal Gemau Aml-ddefnydd am ddwy awr, i mi sylweddoli pa mor ffit ydw i mewn gwirionedd (dim canran ar gael ar hyn o bryd) a gêm ddifyr yn cynnwys tri bachgen, ramp o dywod gyda berfa, offer bach a hyrddiau byr o egni.

Canfyddiadau

Ar Ddydd Sadwrn 5 Mai cynhaliwyd y Rowndiau Terfynol Cyfeiriadu

Cenedlaethol ym Mannau Brycheiniog; yn anffodus, allwn i ddim dod o hyd iddynt a threuliais y diwrnod ym Mryste! Er fy ngwamalu, mae'r ymweliadau hyn yn hynod o bwysig wrth ddatblygu canllaw arfer da, realistig. Mae'n hanfodol gweld y prosiectau wrth eu gwaith, a chwrdd â'r bobl sydd ynghlwm â'r prosiectau er mwyn dysgu a deall am y gwirioneddau ymarferol. Diolch i bawb a rannodd eu lleoliadau a'u profiadau ac a wnaeth fy ymweliadau yn rhai mor bleserus. Bydd eich cyfraniadau gwerthfawr yn helpu i hysbysu maes llafur y cwrs hyfforddi, cyhoeddiad arfer gorau yn ogystal ag ychwanegu at gronfa gynyddol o wybodaeth ar amrywiol ddulliau ac agweddau tuag at 'Chwarae Mas yn eu Cynefin'. Bydd y cyhoeddiad newydd ar gael yn fuan.

Gellir cysylltu â Dan Rees-Jones ar: 07967212151

Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion Ar Waith Cyfweliad gyda Hyfforddwraig Gymraeg P³

Pam fod darpariaeth hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymraeg yn bwysig?

Dylai cyfleoedd chwarae fod ar gael i bawb, a golyga hynny yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cyn belled ac y gwn i, nid oes cyfle i bobl i ymgymryd â chwrs gwaith chwarae yn y Gymraeg. Yr unig hyfforddiant sydd ar gael yw Gofal Plant yn y Blynnyddoedd Cynnar. Mae hwn yn gwrs da sydd wedi ei anelu at blant 0 i 5 mlwydd oed, ond caiff gwaith chwarae ei anelu at blant 5 i 16 mlwydd oed. Os na fydd digon o gyfleoedd ar gael yn y Gymraeg, bydd pobl yn dewis i hyfforddi ym maes gofal plant yn hytrach na gwaith chwarae ac ni fydd yr un cyfleoedd chwarae ar gael i blant trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ceir dadl bod chwarae yr un peth waeth beth fo natur yr hyfforddiant ond mae gwahaniaeth anferth. Er enghraifft nid oes unrhyw nodau neu ganlyniadau ar wahân i gefnogi anghenion a hawl plant i chwarae mewn gwaith chwarae – mae deall hyn yn gamp yn ei hun!

Er mwyn datblygu gwaith chwarae fel proffesiwn, mae'n hanfodol ein bod yn cael mynediad i hyfforddiant gwaith chwarae gaiff ei drosglwyddo yn ein dewis

o iaith (a dewis y plant o iaith) ac i lawer o bobl yma yng Nghymru, golyga hyn trwy gyfrwng y Gymraeg.

Beth gredwch chi y mae hyn yn ei olygu i waith chwarae a darpariaeth gwaith chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg?

Trwy ddarparu gwaith chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg, rydym yn sicrhau bod cyfleoedd chwarae o safon ar gael i ragor o blant yng Nghymru. Yn fy marn i, bydd darpariaeth ble y mae gweithwyr chwarae wedi derbyn hyfforddiant gwaith chwarae o safon yn eu dewis o iaith yn sicrhau y caiff **pob** plentyn ddewis yr hyn y maent am ei chwarae, pryd a pham eu bod am chwarae ac am eu rhesymau eu hunain. Bydd hyn yn sicrhau bod pob cynllun chwarae, boed yn Gymraeg neu Saesneg eu hiaith, yn gweithio tuag at yr un safonau, sef yr "Egwyddorion Gwaith Chwarae".

Louisa Addiscott yw'r Swyddog Datblygu Hyfforddiant Chwarae dros Gymdeithas Chwarae Rhondda Cynon Taf. Ei rôl hi yw datblygu a throsglwyddo cyfleoedd hyfforddiant sy'n hyrwyddo chwarae ar draws y sir. Mae'n weithwraig chwarae brofiadol, yn hyfforddwraig gwaith chwarae ac yn athrawes.



CW'LWM
Childcare Wales Learning & Working Mutually



Mae Angharad Wyn Jones, ein Cynorthwyraig Gwybodaeth, yn profi'r hyfforddiant gwaith chwarae.

Fel un sydd heb unrhyw fath o brofiad o waith chwarae, 'doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl cyn dechrau ar yr hyfforddiant Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion Ar Waith. Heb os, mae'n gwrs hwyliog, amrywiol a llawn gwybodaeth.

Gan fod y cwrs yn fywiog, bydd pawb yn cael cymryd rhan mewn gemau ac yn cael cyfle i gydweithio mewn grwpiau bychain gyda phawb yn y grŵp, sy'n golygu na fydd yn ddiflas ac undonog. Hynny yw, 'dyw hwn ddim yn gwrs ble y

byddwch chi'n eistedd i lawr trwy'r dydd yn gwrando ar yr hyfforddwyr yn darlithio. Rwyf wedi mwynhau'r profiad yn fawr iawn – ac rwy'n edrych ymlaen at weithio mewn cynllun chwarae yn ystod gwyliau'r haf.



Digwyddiadau

5 – 7 Medi 2007

24ain Cynhadledd Byd-eang y Cyngor Rhyngwladol dros Chwarae Plant

Y Gyfadrannau Addysg, Prifysgol Masaryk, Brno, Y Weriniaeth Tsiec
Am ragor o wybodaeth ymwelwch â: www.ped.muni.cz/iccp/

7 – 9 Medi 2007

“The Beauty of Play: Creativity”

Stone, Swydd Stafford
Ffurflenni archebu ar gael oddi ar: www.ludemos.co.uk

16 – 17 Hydref 2007

“PlayEd – Play and Human Development Meeting”

Wolverhampton
Am ragor o fanylion ewch i: www.playeducation.com

16 Tachwedd 2007

“Free Range Childhood” – Cynhadledd gyntaf Rhodwyr Chwarae'r DU

Canolfan Gynadledda Ryngwladol Y Riviera, Torquay
Am ragor o wybodaeth e-bostiwlwch: mtweed@glos.ac.uk
neu galwch 01242 714603

Ariannu

• Lloyds TSB Foundation

Mae grantiau o rhwng £1000 a £10,000 ar gael ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl difreintiedig.
Cewch ragor o fanylion ar www.lloydstsbfoundation.org.uk

• Cronfa Llwybrau at Gyfranogaeth

Mae bwrsariaethau o £200 ar gael gan Gyfranogaeth Cymru ar gyfer ymweld â phrosiect arall mewn rhan arall o'r DU.
Am ragor o fanylion ymwelwch â www.cymunedauyngyntaf.info
neu galwch y llinell gymorth ar 0800 587 8898

• The Hilden Charitable Fund

Hyd at £1,000 ar gyfer cynlluniau chwarae haf sydd o fudd i blant o deuluoedd ffoaduriaid a lleiafrifoedd ethnig.
Am ragor o fanylion ewch i www.hildencharitablefund.org.uk

Cyhoeddiad Newydd “The Venture: a case study of an adventure playground”

Peidiwch â chael eich camarwain! 'Dyw'r llyfr hwn ddim am feysydd chwarae antur yn unig, mae'n gyhoeddiad hanfodol ar gyfer unrhyw un sydd am sicrhau y bydd eu darpariaeth chwarae neu gymunedol yn barod ar gyfer y dyfodol. Mae'n fychan ond yn berffaith ac yn llawn doethineb, profiadau, ffotograffau a straeon. Mae'n delio â materion megis gweithio o fewn cymuned, ariannu, gwleidyddiaeth, cyflogi staff a llawer mwy.



Nid yw hwn yn gronici cyflawn o hanes The Venture nac yn gofiant o'r bobl, yn hen ac ifanc, a gyfranodd at ei lwyddiant. Mae hwn yn archwiliad o sut y bu i The Venture oroesi mewn amgylchiadau anodd am dros 30 mlynedd. Mae'n ymwneud â'r buddiannau y byddwn yn eu hennill fel bodau dynol wrth allu llunio ein

hamgylchedd – fel plant a phobl ifanc, aelodau o gymuned, gweithwyr chwarae, gweithwyr cymunedol, rheolwyr, arianwyr a gwleidyddion.

Siaradodd Fraser Brown, Darllenwyd mewn Gwaith Chwarae ym Mhrifysgol y Leeds Metropolitan, â dau berson allweddol ym mywyd y maes chwarae sef Malcolm King, Rheolwr The Venture, a Ben Tawil, gweithiwr chwarae a fu'n Rheolwr Cynorthwyol am bum mlynedd cyn iddo ddechrau gweithio gyda Chwarae Cymru. Mae Fraser wedi tynnu o'r sgyrsiau hyn bersbectif ar hanes y ddarpariaeth yma a sut y mae wedi parhau i fod yn gynaliadwy yn ogystal â chipolwg ar yr arferion gwaith chwarae a wnaeth The Venture yn fan ble y mae plant a phobl ifanc am fod.

“The Venture is a gem of a project.” **The Guardian, 2002**

“The Venture: a case study of an adventure playground”, cost £7.50 & pacio a phostio. Aiff yr holl elw o werthiant y llyfr hwn i'r elusen 'Aid for Romanian Children'. Ymwelwch â'r siop ar www.chwaraecymru.org.uk i brynu ar-lein neu i lwytho ffurflen archebu i lawr, neu cysylltwch â Kate yn Chwarae Cymru ar 02920 486050.

IPA – Y Gymdeithas Chwarae Ryngwladol

Mae'r hawl i chwarae'n fater llosg byd-eang. O amgylch y byd caiff cyfleoedd chwarae plant eu bygwth gan ofn, tlodi, rhyfel a'r bwlch cynyddol rhwng y cyfoethog a'r tlawd. Mae mater byd-eang angen ymateb byd-eang.

Beth yw'r IPA?

Mae'r Gymdeithas Chwarae Ryngwladol yn fudiad byd-eang, di-lywodraethol a sefydlwyd ym 1961, sydd ag aelodau mewn dros hanner cant o wledydd. Mae'r IPA yn fudiad rhyngddisgyblaethol sy'n dod â phobl ynghyd o bob proffesiwn sy'n gweithio gyda neu dros blant.

Beth fyddwn yn ei wneud?

Byddwn yn cyhoeddi cylchgrawn rhyngwladol, 'Playrights', ddwywaith y flwyddyn; byddwn yn trefnu Cynhadledd Chwarae'r Byd bob tair blynedd; cynhelir cynadleddau rhanbarthol a chenedlaethol; mae gennym statws

ymgyngorol gydag UNICEF; mae gennym gynrychiolwyr yn y Cenhedloedd Unedig yn Efrog Newydd a Geneva; cyhoeddir cylchlythyr 'NewsBrief' ar gyfer aelodau'r IPA yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (EWNI); lleolir canolfan adnoddau chwarae IPA World yn y DU; byddwn yn cefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol dros hawliau'r plentyn i chwarae; a bydd IPA EWNI yn trefnu nifer o weithgareddau ar gyfer aelodau, gan annog agwedd ryngwladol tuag at hawl y plentyn i chwarae.

Cynhadledd Chwarae'r Byd

Cynhelir 17eg Cynhadledd Byd Y Gymdeithas Chwarae Ryngwladol yn Hong Kong yn y

Brifysgol Polytechnig rhwng 8 – 11 Ionawr 2008.

Ymunwch â IPA EWNI

Hoffai IPA eich croesawu chi, neu eich mudiad, i ymuno â'n rhydwraith rhyngwladol ac i gymryd rhan yn y gwaith o hyrwyddo chwarae plant o amgylch y byd!

Mae aelodaeth yn agored i unrhyw unigolyn, grŵp neu fudiad sy'n ardstio Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Am ragor o wybodaeth neu er mwyn ymuno â'r IPA, ymwelwch â www.ipa-ewni.org.uk neu e-bostiwlwch David Yearley ar david.yearley@rospaplaysafety.co.uk